

DATBLYGU GWELEDIGAETH A SIARTER FWYD



Eglurhad

Mae **gweledigaeth** gref neu ddiben cyffredinol y mae rhanddeiliaid yn ymrwmo iddynt wrth wraidd unrhyw bartneriaeth fwyd lwyddiannus. Mae angen i waith y Bartneriaeth Fwyd ganolbwyntio ar bobl yn dod at ei gilydd ac yn cydweithio o amgylch diben cyffredin yn hytrach na bod pethau'n digwydd yn ad hoc ac yn annibynnol.

Bydd amser sy'n cael ei dreulio yn adeiladu dealltwriaeth gyffredin o'r hyn y mae Partneriaeth Fwyd yn ceisio ei gyflawni yn talu ar ei ganfed yn y dyfodol gan mai dyma'r 'glud' sy'n dal y Bartneriaeth Fwyd at ei gilydd wrth iddi aeddfedu. Gall fod yn ddefnyddiol i bartneriaethau sy'n ailddechrau ar ôl cyfnod o anweithgarwch gynnal digwyddiad creu gweledigaeth i adnewyddu ac ail-gadarnhau'r diben cyffredin i sicrhau cefnogaeth barhaus rhanddeiliaid allweddol.

Mae nifer o aelodau Rhwydwaith SFP wedi ei chael hi'n ddefnyddiol cyflwyno eu gweledigaeth ar ffurf **Siarter Fwyd**, gan gyflwyno eu **gweledigaeth** (y diben cyffredinol) a'r **nodau** a fynegir fel canlyniadau y byddant yn canolbwyntio ar eu cyflawni ac sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at gyflawni'r weledigaeth.

Gall Siarter Fwyd sydd wedi'i hysgrifennu'n glir fod yn adnodd cyfathrebu gwych i'ch Partneriaeth.

Gall gynnig:

- datganiad clir o'r hyn rydych chi'n ceisio'i gyflawni
- adnodd i hyrwyddo'r Bartneriaeth Fwyd
- dogfen gynnull i adeiladu momentwm tuag at sefydlu Partneriaeth Fwyd
- pwyslais ar recriwtio ac ysgogi sefydliadau partner ac unigolion allweddol
- strwythur neu fframwaith i adeiladu eich Strategaeth Fwyd a'ch Cynllun Gweithredu.

Datblygu gweledigaeth a siarter

Mae'r broses o ddatblygu gweledigaeth a siarter fel arfer yn digwydd ar ddechrau siwrnai'r Bartneriaeth Fwyd. Fel yr amlinellir yn yr adnodd [Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Grwpiau Llywio](#), bydd rhanddeiliaid a chyfranogwyr allweddol yn dod at ei gilydd i ddechrau rhannu syniadau ac i archwilio gweledigaeth a nodau cyffredin. Felly, fel arfer y partneriaid arweiniol a/neu'r Grŵp Llywio sy'n datblygu'r weledigaeth a'r nodau ar gyfer y Bartneriaeth Fwyd.

Mae ymdeimlad cryf o berchnogaeth o'r Bartneriaeth Fwyd a'r rhanddeiliaid a'r cymunedau lleol y mae'n eu cynrychioli yn allweddol i ddatblygiad y weledigaeth a'r Siarter. Cyn datblygu gweledigaeth a chanlyniadau eich Partneriaeth, mae'n werth gweld sut mae aelodau eraill SFP wedi cyflwyno eu Siarteri Bwyd.

Mae'r enghreifftiau canlynol yn dangos ystod o arddulliau, cynnwys ac agweddau gwahanol o ran Siarteri Bwyd:

[Siarter Fwyd Aberdeen](#)

[Siarter Fwyd Hackney](#)

[Siarter Fwyd Birmingham](#)

[Siarter Fwyd Kirklees](#)

[Siarter Fwyd Bryste](#)

[Siarter Fwyd Swydd Gaerhirfryn](#)

[Siarter Fwyd Caergrawnt](#)

[Siarter Fwyd Caerlŷr](#)

[Siarter Fwyd Caerdydd](#)

[Siarter Fwyd Newcastle](#)

[Siarter Fwyd Caerliwelydd](#)

[Siarter Fwyd Rhydychen](#)

[Siarter Fwyd Durham](#)

[Siarter Fwyd Stoke-on-Trent](#)

[Siarter Bwyd Da i Bawb Glasgow](#)

[Siarter Fwyd Gwynedd](#)

Mae nifer o Bartneriaethau Bwyd yn strwythuro eu Siarteri Bwyd yn benodol o amgylch **6 thema SFP** tra bod eraill wedi datblygu strwythurau eraill sy'n seiliedig ar eu dehongliad eu hunain o flaenoriaethau, canlyniadau a themâu lleol.

Mae strwythurau'r rhan fwyaf o Siarteri Bwyd (gan gynnwys y rheini sy'n cadw at y 6 thema SFP) yn dilyn yr hyn y cyfeirir ato fel **3 philer cynaliadwyedd** yng nghyd-destun bwyd.

Bwyd cynaliadwy

Bwyd sy'n cael ei gynhyrchu, ei brosesu, ei werthu a'i waredu mewn ffyrdd sy'n:

- cyfrannu at economïau lleol ffyniannus a chynnal bywoliaeth pobl sy'n gweithio yn y sector bwyd – **CYNALIADWYEDD ECONOMAIDD**
- gwarchod amrywiaeth planhigion ac anifeiliaid ac osgoi niweidio adnoddau naturiol a chyfrannu at newid hinsawdd – **CYNALIADWYEDD AMGYLCHEDDOL**
- darparu buddion cymdeithasol, fel bwyd o ansawdd da, cynnyrch diogel ac iach a chyfleoedd addysgol – **CYNALIADWYEDD CYMDEITHASOL**

Mae nifer o Bartneriaethau hefyd yn ychwanegu nodau/canlyniadau'r Siarter Fwyd sy'n canolbwyntio'n benodol ar:

- **fwyd, iechyd a lles**, ac ar
- **lywodraethu bwyd da** a'r ffordd y mae'r Bartneriaeth yn gweithio.

Awgrymiadau defnyddiol ar gyfer Siarter Fwyd:

- Ceisiwch ei gwneud yn eang ei gwmpas i ganiatáu ar gyfer newid blaenoriaethau yn y dyfodol
- Adlewyrchu'r ystod o faterion allweddol a nodwyd yn lleol (mae'r rhain yn aml yn cyd-fynd â'r **6 thema SFP**)
- Cadwch hi'n fyr a bod y Siarter yn hawdd i'w chyfathrebu â chynulleidfa eang

- Mae'n syniad da cynnwys datganiad o weledigaeth eich Siarter Fwyd yn eich Cylch Gorchwyl (gweler yr adnodd [Cylch Gorchwyl](#)).

Cyflwyniad

- Ffordd ddefnyddiol o gychwyn y broses o greu gweledigaeth yw cynnal **cyfarfod neu weithdy creu gweledigaeth** lle mae cydlynnydd y bartneriaeth neu'r Cadeirydd yn arwain trafodaeth ar gwestiynau allweddol sy'n helpu i archwilio diben cyffredin a nodau allweddol y grŵp.
- Nid oes unrhyw fodel neu lasbrint ar gyfer datblygu Gweledigaeth a Siarter Fwyd.
- Awgrym yw'r broses ganlynol ar gyfer cyfarfod creu gweledigaeth sy'n seiliedig ar brofiad o hwyluso gweithdai gyda phartneriaethau a chynghreiriau o fewn y Rhwydwaith SFP a thu hwnt.
- Nid yw'n rhaglen anhyblyg – mae'n fwy o ganllaw sylfaenol o ran sut gellir strwythuro cyfarfod cynllunio cyfranogol.

Bydd angen i chi gael:

- Papur siart droi, sgwariau gludiog 'post-it', beiros ffelt lliw trwchus a thenau

Beth i'w wneud

- Dylai'r Grŵp Llywio gynllunio i gwrdd am ddwy awr o leiaf
- Fel awgrym, gallai'r dilyniant canlynol o gwestiynau a dulliau helpu i wneud y cyfarfod yn effeithiol a chynhyrchiol.

Cwestiwn 1

System fwyd gynaliadwy ar gyfer **XXXXX** (eich lle/dinas)
Pa 1 PETH hoffech chi ei weld ymhen 10 mlynedd?

- Pob cyfranogwr i ysgrifennu eu hymateb ar 'post-it' a'i ychwanegu at y siart droi
- Pan fydd pawb wedi ychwanegu eu **1 PETH** ewch o gwmpas y grŵp yn gofyn i bawb gyflwyno eu hunain ac i rannu eu **1 PETH**
- Eglurwch ddiben y cyfarfod a'r hyn y gobeithiwch y bydd yn ei gyflawni

Cwestiwn 2

- Eglurwch y sefyllfa ganlynol:
 - Ar eich ffordd yma, rydych chi'n gweld hen ffrind nad ydych chi wedi'i weld ers tro
 - Maen nhw'n gofyn i chi ble rydych chi'n mynd
 - Rydych chi'n dweud wrthyn nhw eich bod chi'n mynd i gyfarfod cynllunio ar gyfer partneriaeth fwyd gynaliadwy **XXXXX** (eich lle/dinas)
 - Yna maen nhw'n gofyn: Partneriaeth Fwyd Gynaliadwy **XXXXX** (eich lle/dinas)

Beth yw pwrpas hynny?

Beth rydych chi'n ei ddweud?

- Pawb i ysgrifennu ymatebion – un neu ddau o frawddegau ar y mwyaf – ar 'post-its'
- Rhannwch ymatebion, trafodwch, eglurwch a chlystyrwch/nodwch ddatganiadau cyffredin
- Nodwch ddatganiadau y mae'r rhan fwyaf o bobl yn cytuno arnyn nhw sy'n crynhoi pwrpas y Bartneriaeth fwyaf effeithiol – ychwanegwch rannau o ddatganiadau at ei gilydd os oes angen
- **Ceisiwch gael consensws ar ddatganiad drafft o'r WELEDIGAETH ar gyfer y bartneriaeth** a allai fod angen gwaith pellach – e.e. gramadeg, trefn, geiriad a geirfa benodol.

Cwestiwn 3

- Eglurwch themâu allweddol bwyd cynaliadwy (fel y disgrifir yn yr adran eglurhad: amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd, iechyd a lles, llywodraethu)
- Fel arall, eglurwch y 6 thema SFP
- Ystyriwch **Gwestiwn 1** unwaith eto ond yn fanylach ac ar gyfer pob thema


Sut beth ddylai system fwyd leol gynaliadwy fod ymhen 10 mlynedd?

Beth fydd wedi'i gyflawni o dan bob thema?

Cwestiynau cynorthwyol:

- **Sut beth fydd llwyddiant?**
- **Beth fydd yn cael ei gyflwyno?**
- **Beth fydd yn ei le – strwythurau, strategaethau a pholisiau?**
- **Beth fydd wedi newid?**
- **Beth fydd pobl yn gallu ei wneud?**
- **Beth fydd yn digwydd?**
- **Beth na fydd yn digwydd?**

- Trafodwch a chofnodwch sylwadau neu awgrymiadau drwy ddefnyddio siart droi
- Gallai'r siart droi gael ei threfnu fel yr un a ddangosir isod:



- Yn seiliedig ar y 'post-its' ar gyfer pob thema, trafodwch a phenderfynwch ar ddatganiadau clir sy'n crynhoi nodau neu ganlyniadau clir
- Drafftio ddatganiadau ar gyfer pob thema fel sail i nodau'r Siarter Fwyd.